This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

Creigiau a Sain Ffagan: Heol Pant-Y-Gored: Gwelliannau Priffyrdd

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch ei gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd. Mae'r cynllun yn ofynnol i gyflawni rhwymedigaeth cynllunio Adran 106 sy'n gysylltiedig ag estyniad Chwarel Creigiau, dan gais cynllunio 15/01953/MJR y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer ar 21 Rhagfyr 2018.

Mae'r cynigion priffordd yn cynnwys adeiladu pedwar man pasio ar ochr ddeheuol Heol Pant-y-Gored. Bydd y lleoedd pasio hyn yn cynnig lleoliadau cyfleus i gerbydau mwy basio'i gilydd.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a allai fod gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod gennych awgrymiadau eraill i wella diogelwch ar Heol Pant-y-Gored. O ganlyniad i gyfyngiadau ar arian efallai na allwn newid y cynlluniau hyn ryw lawer ar yr adeg hon, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau rydym yn eu derbyn i'w hymgorffori yng nghynlluniau'r dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn 25/10/2019 at ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Cyllid Adran 106 Mae Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol wneud cytundeb neu rwymedigaeth cynllunio cyfreithiol-rwymol gyda pherchennog tir mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio. Gelwir y rhwymedigaeth yn Gytundeb Adran 106.

Mae'r cytundebau hyn yn ffordd o gyflawni neu fynd i'r afael â materion sydd eu hangen i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o ran telerau cynllunio. Fe'u defnyddir fwyfwy i gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau a seilwaith, megis priffyrdd, cyfleusterau hamdden, addysg, iechyd a thai fforddiadwy.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn, rhowch wybod i ni erbyn **25/10/19** drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **25/10/19** by email to TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW